## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 19 Ionawr 2017 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Pat Jones, Gwyneth Kensler, Pete Prendergast, Arwel Roberts a Huw Williams

Mynychodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr Hugh Irving, Bobby Feeley a Julian Thompson-Hill y cyfarfod ar wahoddiad y Pwyllgor.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Martyn Holland, Jason McLellan a Mark Young

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Pri Reolwr, Gwasanaethau Gweithredol (CCN), y Pennaeth Cyllid (RW), y Rheolw Perfformiad a Chontractau (PB), y Swyddog Perfformiad a Chynllunio Strategol (HG), y Cydlynydd Craffu (RE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Alison Kemp, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
Debbie Basham, Cyfarwyddwr Partneriaeth, Civica
Rhys Burton, Rheolwr Rhaglen, Cymunedau'n Gyntaf
Gavin Roberts, Rheolwr Clwstwr, Cymunedau'n Gyntaf

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bill Tasker

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Roedd y Cynghorydd Gwyneth Kensler yn datgan cysylltiad personol yn Eitem 6, Cytundeb Partneriaeth Refeniw a Budd-daliadau.

Roedd y Cynghorydd Jason McLellan yn mynegi cysylltiad personol yn Eitem 7, Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2016.

Hysbyswyd yr Aelodau y derbyniwyd cadarnhad na fyddai'r Grant Cefnogi Pobl i'r sir yn cael ei dorri ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

Ar y pwynt hwn, canmolodd y Cadeirydd y cofnodion manwl.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

**5 TREFNIADAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CYMUNEDOL I GEFNOGI RHYDDHAU CLEIFION O'R YSBYTY YN AMSEROL**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant, y Cynghorydd Bobby Feeley, Phil Gilroy, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Cathy Curtis-Nelson, Prif Reolwr, Gwasanaethau Gweithredol ac Alison Kemp, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Gwasanaethau Cymunedol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â threfniadau partneriaeth o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol i fonitro a mynd i'r afael ag oedi mewn trefniadau trosglwyddo gofal, yn arbennig o'r ysbyty.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol fod Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn destun oedd wedi derbyn llawer o sylw yn y cyfryngau am beth amser ac roedd yn fater cymhleth, amlasiantaeth. Mewn ymdrech i ddod o hyd i ateb cynaliadwy i un o'r ffactorau oedd yn cyfrannu at y broblem hon roedd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal uwchgynhadledd tridiau ym mis Rhagfyr, a gwahoddwyd darparwyr gofal annibynnol, i ystyried maint y problemau yr oedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn debyg o'u hwynebu wrth symud ymlaen. Byddai pob awdurdod unigol angen dyfeisio datrysiadau cynaliadwy ar gyfer rhai o'r pwysau a nodwyd, byddai datrysiadau eraill angen i ddau neu fwy o sefydliadau partner weithio gyda'i gilydd i'w datrys.
Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol bod pwysau a nodwyd yn yr uwchgynhadledd yn cynnwys:

- Prinder gwelyau mewn cartrefi gofal a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd daearyddol;
- Prinder darparwyr gofal a allai ddarparu pecynnau gofal cymhleth e.e. gofal 'ymdriniaeth ddwbl', yn arbennig yn ne Sir Ddinbych; Diffyg nyrsys hyfforddedig i weithio mewn lleoliad gofal iechyd;
- Prinder pobl oedd yn dymuno gweithio o fewn gwasanaethau gofal

Byddai deilliannau'r digwyddiad uchod yn cael eu cyflwyno i holl Brif Weithredwyr Gogledd Cymru maes o law. Roedd yn amlwg y byddai angen dull amlweddog er mwyn cyflwyno datrysiadau cynaliadwy ac roedd Llywodraeth Cymru angen datrys y mater o rannu costau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y Timau Ardal eisoes yn cynnwys timau clwstwr o fewn ysbytai a oedd yn gweithio gyda chleifion ag anghenion llai cymhleth, i'w helpu i wella a'u rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC):

- Byddai datblygu cyfleusterau tai Gofal Ychwanegol yn helpu i leddfu'r pwysau;
- roedd recriwtio ym mhob sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi ac yn parhau i fod yn broblem;
- Roedd angen rheoli disgwyliadau pobl yn well a gwella canlyniadau i unigolion o ganlyniad;
- Gan fod pobl nawr yn byw'n hŷn roedd angen cefnogaeth ddigonol i'w helpu i fyw yn annibynnol yn hirach, gan fod hyn yn gwella ansawdd eu bywyd. Er mwyn hwyluso hyn, roedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol angen gweithio llawer gwell gyda'r sector annibynnol i gomisiynu gwasanaethau cefnogi ganddynt; O Ebrill 2018 byddai angen cyllidebau gofal cyfun ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Er mwyn i hyn weithio'n effeithiol ac yn effeithlon i wella canlyniadau i'r unigolyn, byddai'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth iechyd angen mabwysiadu dull strategol cydlynol cadarn; Bydda'r sgwrs 'Beth sydd o Bwys' yn allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Roedd angen newid diwylliannol hefyd yn agwedd staff iechyd a gofal cymdeithasol i symud draw o ddarparu gwasanaethau 'dibyniaeth' i ddarparu gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi annibyniaeth yr unigolyn. Cydnabuwyd bod hyn yn anodd gan fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn 'ofalwyr' wrth reddf ac felly'n dymuno gofalu am y defnyddiwr gwasanaeth.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, hysbysodd yr Aelod Arweiniol, swyddogion Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd y Pwyllgor:

- Bod nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer myfyrwyr nyrsio wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn mynd i'r afael â'r prinder nyrsys hyfforddedig ar draws y sir. Fodd bynnag, roedd yna bryder ar hyn o bryd y gallai diwygio bwrsariaeth nyrsio'r GIG, a oedd yn dod i rym ar 1 Awst 2017, gael effaith niweidiol ar y nifer posibl o bobl oedd yn gwneud cais ar gyfer cyrsiau nyrsio yn y dyfodol; Roedd cymhwyster oedd yn cyfateb i'r cyn gymhwyster SEN ar fin cael ei gyflwyno, a elwir yn Ymarferwyr Cynorthwyol. Rhagwelir y byddai hyn yn helpu i leddfu'r pwysau yn y Gwasanaeth Iechyd maes o law; Bod y Bwrdd Iechyd yn archwilio ailfynediadau i'r ysbyty ar hyn o bryd i sefydlu pa un a oedd unrhyw batrymau neu dueddiadau yn codi e.e. a oedd cleifion wedi eu rhyddhau'n rhy fuan, neu heb becynnau gofal a chefnogaeth ddigonol ac ati;
- Cydnabuwyd nad oedd arhosiadau hir yn yr ysbyty bob amser yn arwain at wella deilliannau, gan fod yna beryglon cysylltiedig â bod yn glaf preswyl mewn ysbyty e.e. dryswch, cwympiadau, heintiau ac ati;
- Roedd prinder staff o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn fater cymhleth. Er gwaethaf cyflwyno'r cyflog byw cenedlaethol, roedd mwy o staff asiantaeth yn cael eu cyflogi oherwydd prinder. Er mwyn ceisio denu pobl ifanc i'r sector, datblygu llwybrau gyrfa a sicrhau nad oedd y sector cyhoeddus yn 'cymryd' staff o'r sector annibynnol neu i'r gwrthwyneb ac ati, roedd rhaglen datblygu gweithlu rhanbarthol wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â phob agwedd o brinder staff. Byddai'r rhaglen hefyd yn ystyried datblygu gwasanaethau hyfforddi ac ataliol yn ogystal â gweithio gydag adnoddau

dynol i ddatblygu ymgyrch recriwtio deniadol; bod y Gwasanaeth Iechyd a'r Cyngor yn cyflogi Therapyddion Galwedigaethol a chadarnhawyd bod eu telerau ac amodau yn unol â thelerau cyflogaeth eu cyflogwr;

- bod Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio nifer o systemau TG, nad oedd yn cydweddu â'i gilydd. Fodd bynnag, roedd gan staff oedd yn gweithio yn y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl fynediad i holl systemau oedd eu hangen i ddarparu gwasanaeth di-dor. Roedd gan y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl ei system TG trosfwaol ei hun hefyd lle'r oedd holl ymholiadau'n cael eu cofrestru a gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cofnodi; ei bod yn galonogol yn Sir Ddinbych bod y niferoedd Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn lleihau. Roedd yna nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys gwasanaethau camu-i-lawr a'r gwaith a hwylusir gan y Pwynt Mynediad Sengl. Roedd yn hanfodol felly bod cyllid ar gyfer y Pwynt Mynediad Sengl wedi'i sicrhau ar gyfer y dyfodol; roedd argaeledd offer cymorth ac addasiadau i gartref y defnyddiwr gwasanaeth hefyd yn brif ystyriaethau wrth ryddhau pobl o'r ysbyty i amgylchedd cartref diogel. Yn gyffredinol, roedd offer gofynnol ar gael, oni bai bod angen offer mwy cymhleth. Roedd Gofal a Thrwsio yn ymgymryd ag addasiadau tai, roedd hyn yn cael ei wneud yn brydlon yn y mwyafrif o achosion, fodd bynnag os oedd angen addasiadau mwy cymhleth gwneir pob ymdrech i roi mesurau dros dro ar waith i helpu i ryddhau'n ddiogel ac yn amserol; roedd 'matresi pwysau' yn gyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd i'w darparu i unigolion oedd eu hangen. Fodd bynnag, roedd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflenwi'r matresi hyn.
- Roedd pecynnau gofal nawr yn cael eu dylunio a'u comisiynu yn seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig' i bob unigolyn, tra'r oedd y cyfnod ar gyfer eu darparu yn seiliedig ar anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth;

  Bod gan y Cyngor drefniadau monitro contract cadarn ar waith i reoli a monitro pob contract oedd ganddo gyda darparwyr allanol yr oedd yn comisiynu gwasanaethau gofal ganddynt. Yn Ebrill 2017 roedd holl becynnau gofal yn y cartref yn destun ymarfer tendro newydd. Oherwydd y pwysau a roddwyd ar y sector annibynnol gan gyfarwyddiadau fel y cyflog byw cenedlaethol ac ati, roedd y Cyngor wedi cynyddu ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau gofal a gomisiynwyd 5% i ddelio â'r pwysau hwn. Rhagwelir y byddai'r awdurdod lleol yn gwario £1.5miliwn ychwanegol eleni ar wasanaethau a gomisiynwyd gan ddarparwyr gofal annibynnol. Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gyda darparwyr gofal annibynnol ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu gwasanaethau a fyddai'n gwella deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol;
- Cyflogwyd nyrs gyswllt ym mhob ysbyty. Byddent yn cyfarfod yn wythnosol i drafod Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal ac adrodd yn ôl i'r awdurdodau perthnasol; Roedd BIPBC wedi caffael system gwybodaeth cymunedol a fyddai yn y pen draw yn disodli PARIS a systemau TG Iechyd dros gyfnod o dair blynedd. Roedd gan y Gwasanaeth Iechyd system eisoes oedd yn rhoi gwybod i Nyrsys Cymuned pan oedd claf wedi mynd i'r ysbyty. Roedd contract yr awdurdod lleol ar gyfer y system PARIS yn ei le tan 2019. Hyd yma, nid oedd wedi ymrwymo i'r System Dogfennau Cleifion CSSI, byddai'n cadw golwg ar ei ddatblygiad a'i weithrediad, cyn penderfynu pa system i'w gaffael ar gyfer y dyfodol; Roedd y gwaith eisoes yn ei le mewn perthynas â chreu 'cyllidebau-cronfa';

- Bod gwaith hefyd ar y gweill ar hyn o bryd ar sut y gall y Bwrdd Iechyd ddefnyddio sgiliau'r holl staff a mwyhau'r defnydd o'r sgiliau hynny;
- Ar draws Conwy a Sir Ddinbych (gan gynnwys Ysbyty Cymuned Treffynnon) roedd gan BIPBC 228 gwely cymuned, pob un yn cael ei ddefnyddio;
- Bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried sut i ddatblygu'r dull 'ysbyty yn y cartref' ar hyn o bryd ar draws y rhanbarth gyda'r bwriad o gadw pobl fel cleifion preswyl am gyfnod byr o amser fel bo'r angen. Byddai diogelwch cleifion yn hanfodol ac roedd y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol y byddai yna rwystrau i'w goresgyn tra'n datblygu'r cydsyniad hwn, yn arbennig mewn perthynas â thensiynau a phryderon o fewn teuluoedd mewn perthynas ag arhosiad byr iawn yn yr ysbyty;
- Bod Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i sefydlu mewn ymdrech i ddatblygu cyllidebau cyfun, polisïau ac arferion cytûn ac arferion gwaith cydlynol ac ati. Roedd gwaith y Bwrdd hyd yma yn nodi nad oedd yn ymddangos bod yna unrhyw fudd i un awdurdod lleol fod yn gweithio mewn ardaloedd sir arall ac nad oedd gwaith rhanbarthol bob amser yn arwain at ostyngiad mewn costau. Byddai'n dibynnu ar y math o wasanaeth a ddarperir; Bod swyddogion Iechyd ac Awdurdod Lleol yn llwyr ymwybodol o'r ffaith bod symud preswylydd allan o'u hardal gymunedol eu hunain i ardal arall ar gyfer derbyn y gofal angenrheidiol â'r potensial o gael effaith andwyol ar iechyd a lles unigolyn;

  Nad oedd union ffigurau ar gael ar gyfer 'rhyddhau anamserol', ac nad oedd yna ddiffiniad clir ar gael ar gyfer y term 'rhyddhau anamserol'. Fodd bynnag, teimlwyd y gall argaeledd ehangach gwasanaethau ataliad leihau'r nifer o bobl a oedd yn mynd i'r adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (D&A) e.e. cleifion a allai ddefnyddio'r gwasanaethau cymunedol. Roedd astudiaeth wedi'i chynnal yn ddiweddar i nodi patrymau neu dueddiadau mewn perthynas â chleifion sy'n mynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd angen datblygu cefnogaeth ar gyfer gofal diwedd bywyd yn y cartref hefyd yn hytrach nag anfon pobl i'r ysbyty ar gyfer eu dyddiau olaf;
- Er bod Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn lleihau, lle roedd yna oedi, roedd yna reswm dilys y tu ôl i hyn. Roedd fel arfer o ganlyniad i brinder gwelyau cymuned ar adeg penodol mewn ysbyty cymuned neu oherwydd prinder gwelyau gofal nyrsio sydd ar gael yn y sector annibynnol. Gan fod y mwyafrif o gartrefi nyrsio annibynnol yng Ngogledd Cymru yn fusnesau teulu bach, gydag ychydig iawn o ddarparwyr grŵp cwmni mawr yn y rhanbarth, ychydig o wytnwch oedd yn y sector os byddai un neu fwy o gartrefi yn cau; Dylai'r nod tymor hir o ddarparu mwy o gyfleusterau Gofal Ychwanegol ar draws y sir leddfu'r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd, trwy ddarparu gwasanaethau atal i osgoi derbyniadau ysbyty diangen a thrwy ddarparu gwasanaethau gofal/nyrsio yn y sefydliad Gofal Ychwanegol a fyddai'n helpu i ryddhau'n amserol o'r ysbytai;
- Byddai'r deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu cynnwys mewn cyfres o Ddangosyddion Perfformiad, pob un yn gorfod cydymffurfio â'r amcanion lles o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Bod y wybodaeth ar ddeilliannau i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth unigol yn cael ei rhannu rhwng y Gwasanaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd gan y Gwasanaeth Ailalluogi gofnodion cynhwysfawr ar y deilliannau i ddefnyddwyr ei wasanaethau; bod yna dîm o fewn yr Adrannau

Damweiniau ac Achosion Brys oedd yn asesu cleifion ar ôl mynediad ar y gofal yr oeddent yn ei dderbyn ar hyn o bryd i alluogi'r wybodaeth honno gael ei chofnodi i hysbysu'r Tîm Rhyddhau i'w helpu i gynllunio'r hyn fydd ei angen pan fydd y claf yn barod i ddychwelyd gartref;

- bod cyfathrebu clir gan yr holl wasanaethau ac unigolion oedd yn ymwneud â'r claf/defnyddiwr gwasanaeth yn allweddol os oedd gwasanaethau am fod yn effeithiol.

Ar ddiwedd y drafodaeth pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain a bod y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yno i'w ddefnyddio pan fyddai rhywun ei angen.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol, am gyfrannu at y drafodaeth ac aeth y Pwyllgor ymlaen:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod:*

*(i) derbyn yr adroddiad a gofyn i adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno yn yr hydref 2017 ar 'Ryddhau Amserol o'r Ysbyty'; a*
*(ii) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yn ei gyfarfod yn Ebrill 2017 ar 'Ddatblygu Cyllidebau Cyfun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.'*

**Ar y pwynt hwn (11.05 am) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.20 a.m.**

## 6 CYTUNDEB PARTNERIAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Richard Weigh, Pennaeth Cyllid, Paul Barnes, Rheolwr Contractau a Pherfformiad a Debbie Basham (Civica) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i'r aelodau i adolygu partneriaeth yr Awdurdod gyda Civica wrth ddarparu'r gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau i drigolion Sir Ddinbych.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn unol â dymuniad y Cabinet bod y Pwyllgor yn adolygu perfformiad y bartneriaeth 18 mis ar ôl ei sefydlu. Yn ei gyflwyniad manylodd yr Aelod Arweiniol strwythur llywodraethu'r bartneriaeth a'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran y meysydd canlynol: busnes newydd/cyfleoedd masnachol, darparu gwasanaeth, disgwyliad ariannol a darpariaeth Cymraeg - y cyfan wedi eu manylu yn yr adroddiad. Dywedodd bod y Gwasanaeth ers ei sefydlu:

- wedi cynorthwyo rhai awdurdodau yn Lloegr trwy ymgymryd â gwaith ar eu rhan er mwyn lleihau'r pwysau arnynt; ac
- roedd yr holl arbedion effeithlonrwydd wedi eu cyflawni. Roedd rhywfaint o'r arbedion wedi'i ddefnyddio ar gyfer uwchraddio llety Civica yn Nhŷ Russell ar

gyfer ‘Canolfan Elwy’. Rhagwelir y byddai’r addasiadau hyn yn cefnogi uchelgais Civica i ddenu busnes newydd.

Oherwydd ansicrwydd yng Nghymru ar ad-drefnu llywodraeth leol, roedd cynnydd o ran ehangu cyfleoedd masnachol gydag awdurdodau lleol eraill wedi bod yn arafach nag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Er hynny, y gobaith oedd y byddai hwn yn faes lle gwelir twf yn y dyfodol, nawr bod ad-drefnu llywodraeth leol yn annhebygol o ddigwydd yn y tymor byr i ganolig. Cafwyd trafodaethau pellach o ran y posibilrwydd o ddarparu Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau ar gyfer un awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol, ac roedd awdurdodau eraill wedi dangos diddordeb mewn gwasanaethau y gellir eu darparu o Ganolfan Elwy.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Contractau a Pherfformiad a Chyfarwyddwr Partneriaeth Civica:

- nad oedd y nifer o gwynion yn erbyn y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi cynyddu ers i Civica dderbyn cyfrifoldeb am ddarparu’r Gwasanaeth. Yn ystod 2013/14, roedd 39 o gwynion wedi eu cofnodi yn erbyn y Gwasanaeth, 17 yn 2014/15 ac 20 yn ystod 2015/16. Roedd y tueddiad cyffredinol yn y nifer o gwynion yn mynd i lawr; bod darpariaeth gwasanaeth yn gyffredinol yn cael ei ystyried o ansawdd da;
- hysbysodd y Pwyllgor na fu unrhyw newidiadau i brotocolau nac arferion rhannu gwybodaeth rhwng y Cyngor a Civica nac i’r gwrthwyneb;
- cadarnhaodd mai rhan o’r rhesymeg dros sefydlu’r Bartneriaeth oedd symleiddio’r nifer o staff. Er hynny, nid oedd unrhyw staff wedi cael eu gwneud yn ddi-waith. Roedd y cynllun agored newydd ar gyfer Canolfan Elwy wedi cynorthwyo rheolwyr yn eu rôl o reoli staff. Roedd personél oedd wedi symud o’r Cyngor i Civica i gyd wedi gwneud hynny o dan drefniadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE); dywedodd fod y cytundeb rhwng y Cyngor a Civica wedi nodi bod Civica yn defnyddio’r gofod presennol yn Nhŷ Russell heb orfod talu rhent. Fodd bynnag, os oedd busnes Civica am ddatblygu yn ôl y disgwyl ac os byddai angen mwy o ofod llawr o fewn yr adeilad yna byddai’n rhaid talu rhent am y gofod ychwanegol;
- hysbysodd yr aelodau er yr ymddengys bod yna fwy o ddiddordeb gan awdurdodau lleol, roedd hefyd yn archwilio opsiynau posibl a all godi drwy ddatganoli pwerau codi trethi i Lywodraeth Cymru (LlC); cadarnhaodd bod darparu gwasanaethau refeniw a budd-daliadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn amod yn y cytundeb rhwng y Cyngor a Civica. Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i hybu'r safonau Cymraeg; ac roedd gwersi Cymraeg yn cael eu darparu i staff oedd yn dymuno gwella eu sgiliau ieithyddol; dywedodd fod Civica yn gweithio’n agos gyda Cyngor ar Bopeth ar faterion fel cyngor ynghylch dyled. Roedd yna brotocolau cadarn ar waith rhwng y ddau sefydliad. Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd mewn perthynas â helpu Treth Dalwyr a oedd yn cael problemau cyllido i weld a fyddai taliadau Debyd Uniongyrchol ar gyfer y dreth yn gallu eu helpu gyda’u cyllidebau tŷ. Roedd Civica hefyd yn gweithio gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau i geisio perswadio unigolion oedd yn wynebu ‘budd-dal wedi’i gapio’ i ryngweithio gyda Civica a CAB yn fuan er mwyn lleihau pwysau ariannol a straen emosiynol; dywedodd wrth y Pwyllgor bod menter arall o dan ystyriaeth fel dull ymyrryd yn fuan ar gyfer osgoi dyled rhag cronni yn anfon negeseuon atgoffa byr ar gyfer taliadau Treth y Cyngor oedd yn weddill;

- cadarnhaodd o ran Ardrethi Busnes, roedd rôl Civica yr un fath â rôl flaenorol y Cyngor e.e. ei fod ond yn casglu'r ardrethi ar ran Llywodraeth Cymru. Asiantaeth y Swyddfa Brisio oedd yn pennu gwerth ardrethol.Dywedodd mewn perthynas ag ail-brisio'r Band Ardrethi Busnes yn ddiweddar, yn arbennig yr effaith andwyol posibl y gall hyn ei gael ar fusnesau lleol ac yn sgil hynny ar uchelgais y Cyngor i ddatblygu'r economi leol, roedd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus wedi mynegi pryderon y ddau sefydliad mor gryf â phosibl wrth Lywodraeth Cymru; hysbysu'r Pwyllgor bod Civica wedi'i gynrychioli ar y Gweithgor Trechu Tlodi;
- dywedodd bod y risgiau oedd yn ymwneud â chontract y Cyngor gyda Civica (ynghlwm wrth yr adroddiad) yn cael eu monitro'n fisol. Cyflwynwyd adroddiad ar dueddiadau i'r Bwrdd Strategol a Gweithredol yn chwarterol.

Ar ddiwedd y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor:

***Benderfynu:***

***(i)*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, penderfynodd ei fod yn fodlon fod y Bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol yn y pedwar maes allweddol o gyfleoedd busnes/masnachol newydd, darparu gwasanaeth, diwallu disgwyliadau ariannol a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; a*

***(ii)*** *bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor gynted ag yr oedd ar gael yn manylu gwaith y Bartneriaeth mewn perthynas â rheoli dyled yn y sir, taliadau dewisol tai a'r peilot debyd uniongyrchol wythnosol ar gyfer talu Treth y Cyngor.*

## 7 CYMUNEDAU YN GYNTAF YN SIR DDINBYCH

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd, y Cynghorydd Hugh Irving, Heidi Gray, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol, Rhys Burton, Rheolwr Rhaglen, Cymunedau yn Gyntaf a Gavin Roberts, Rheolwr Clwstwr, Cymunedau yn Gyntaf i'r cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd, a oedd hefyd yn Aelod Gwrthdlodi'r Cyngor adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu'r cynnydd a wnaed yn ystod 2015/16 a dau chwarter cyntaf 2016/17 gyda'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych. Dywedodd fod y Grŵp Cydweithredol wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru i weinyddu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru a bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ym mis Hydref 2016 efallai y byddai'r rhaglen yn dod i ben ac yn cael ei disodli gyda 'dull newydd' i greu cymunedau gwydn. Roedd ymgynghoriad ar 'ddull newydd' arfaethedig wedi dod i ben yn ddiweddar ac roedd disgwyl i Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi'r dull a ffefrir ar 14 Chwefror 2017. Hysbysodd yr Aelod Arweiniol yr Aelodau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r peryglon cysylltiedig â thynnu'r gwasanaeth yn ôl o bosibl, ond hyd nes y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn cyhoeddi ei benderfyniad terfynol ar unrhyw drefniadau ar gyfer y dyfodol, byddai'r Awdurdod yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r rhaglen. Roedd swyddogion y Cyngor wedi cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2016 i drafod effeithiau posibl colli'r rhaglen ar gymunedau mwyaf difreintiedig Sir Ddinbych. Yn ystod y cyfarfod hwnnw roedd yn amlwg y

byddai cyllid ar gael ar gyfer tair swydd: Mentor Oedolion, Mentor Pobl Ifanc a gweithiwr blaenoriaethu (rheng flaen) yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau Dros Waith. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mynegi diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda Sir Ddinbych mewn perthynas â'r swydd ddiwethaf. Roedd ymarferoldeb dull partneriaeth ar gyfer y rôl hon yn cael ei archwilio ar hyn o bryd. Roedd Grŵp Trechu Tlodi'r Cyngor yn monitro datblygiadau'n agos ar hyn o bryd o ran cyllido cymunedau difreintiedig yn y dyfodol.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ddau gynrychiolydd o'r Grŵp Cydweithredol i'r Pwyllgor, Mr Rhys Burton (Rheolwr Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf) a Mr Gavin Roberts (Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf) y ddau yn manylu cynnwys yr adroddiad Grŵp Cydweithredol, ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, gan gynnwys y dyddiad diwygiedig ar gyfer ail chwarter 2016/17. Dywedwyd oherwydd salwch tymor hir yn y Tîm Data Iechyd roedd y data oedd yn ymwneud â gweithgareddau iechyd yn dal i gael ei ddiweddaru.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y cynrychiolydd Cydweithredol:

- roedd tua 70% o gyllid Cymunedau yn Gyntaf o £660 mil ar gyfer clwstwr Gogledd Sir Ddinbych ar gyfer 2016/17 yn cael ei wario ar gostau staffio. Roedd hyn yn ymddangos yn ormodol, fodd bynnag roedd y math o waith a wnaed yn llafurus iawn gan fod staff yn ceisio ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ac roedd llawer o'r unigolion yr oeddent yn gweithio gyda nhw angen llawer o gefnogaeth ddwys. Roedd costau rhentu swyddfa ac ati yn isel. Roedd rhywfaint o arian wedi'i dalu allan tuag at gostau'r prosiectau, ond roedd meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r arian yn rhagnodol iawn; roedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi'i thargedu at yr unigolion anodd eu cyrraedd gyda'r bwriad o ddatblygu eu hyder a'u sgiliau i'w cael yn barod ar gyfer y farchnad swyddi. Roedd ei waith yn wahanol iawn i waith yr asiantaethau eraill e.e. asiantaethau menter a oedd yn anelu mwy tuag at gefnogi entrepreneuriaid i sefydlu eu busnesau. Felly roedd y niferoedd a gefnogwyd gan Cymunedau yn Gyntaf ar unrhyw adeg yn isel oherwydd faint o gefnogaeth barhaol oedd ei hangen; roedd cynrychiolydd Cymunedau yn Gyntaf yn gwasanaethu ar Weithgor Trechu Tlodi y Cyngor;
- roedd rhywfaint o'r cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn dod o Gyllid Ewropeaidd;
- roedd y Grŵp Cydweithredol yn cytuno gydag Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n fuddiol adolygu'r rhaglen. Fodd bynnag, er gwaethaf cyfrifoldeb gweinyddu'r rhaglen nid oedd y Grŵp Cydweithredol wedi'i hysbysu ymlaen llaw o fwriad Ysgrifennydd y Cabinet i gyhoeddi adolygiad o'r rhaglen. Roedd hyn wedi achosi pryder i staff a gyflogwyd gan y rhaglen;roedd gan y Grŵp Cydweithredol lawer o ddata ar y cymunedau yr oedd yn gweithio gyda nhw a gallai nodi lle'r oedd gwahaniaeth mewn incwm yn bodoli;
- roedd yna bryder ymhlith cynrychiolwyr Grŵp Cydweithredol er bod datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar y posibilrwydd o raddol ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf rhoddodd ymrwymiad i sgiliau, helpu pobl i gael gwaith, blynyddoedd cynnar a rhoi grym, nid oedd unrhyw sôn penodol am weithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd;
- roedd yna gamsyniad mewn rhai ardaloedd ar yr hyn yr oedd gan Cymunedau yn Gyntaf hawl i'w wneud. Er y gall y rhaglen weithio, ac roedd yn gweithio, gyda sefydliadau eraill i helpu unigolion i leihau dyled a

rheoli eu cyllid, ni allai gyllido unrhyw gostau cyfalaf e.e. mewn perthynas â thai o ansawdd gwael. Gallai ond arwyddbostio pobl i sefydliadau a allai eu cynorthwyo i sicrhau tai gwell; roedd yr holl dargedau a osodwyd ar gyfer eu gwaith yn Sir Ddinbych wedi eu diwallu o un flwyddyn i'r llall;

nid oedd yna strategaeth ymadael pendant ar waith ar hyn o bryd. Unwaith y cyhoeddir penderfyniad terfynol Ysgrifennydd y Cabinet byddai strategaeth ymadael yn cael ei chwblhau. Ar hyn o bryd, roedd y Grŵp Cydweithredol, yn amodol ar gyhoeddiad terfynol Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithio tuag at ddyddiad cwblhau sef Rhagfyr 2017 ar gyfer stopio'i raglen waith Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y cyllid ar gyfer gwaith Cymunedau yn Gyntaf wedi'i warantu tan fis Mehefin 2017. Unwaith y byddai Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud ei gyhoeddiad terfynol ar y rhaglen byddai trafodaethau'n dechrau gyda'r gweithlu a budd-ddeiliaid eraill e.e. CAB Sir Ddinbych, MIND ac ati ar sut y gellir cynnal prosiectau llwyddiannus ar gyfer y dyfodol gyda'r bwriad o greu cymunedau cryf;

- os byddai'r rhaglen/contract Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei dynnu'n ôl byddai'r Grŵp Cydweithredol angen rhoi 3 mis o rybudd terfynu cyflogaeth ei 11 aelod o staff a chyfnod o 3 mis o rybudd i adael ei eiddo yn y Rhyl;
- roedd y Grŵp Cydweithredol mewn gwirionedd yn rhedeg y rhaglen ar golled. Os byddai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei therfynu byddai'r berthynas a ddatblygwyd hyd yma o fewn y cymunedau, nifer ohonynt wedi cymryd blynyddoedd i'w datblygu yn gorfod cael eu hailddatblygu gan ddarparwr gwasanaeth newydd. Byddai hyn yn gam yn ôl a gallai arwain at unrhyw rhaglen(ni) newydd yn cymryd cryn amser i'w sefydlu o ganlyniad i golli ymddiriedaeth roedd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer Prosiect Ieuenctid Dinbych ar wahân i gyllid rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- byddai croeso i aelodau etholedig, os dymunent fynychu digwyddiad a drefnwyd ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 ar fywyd prifysgol, i'w gynnal yn Neuadd y Dref y Rhyl ar 16 Chwefror 2017. Nod y digwyddiad hwn oedd codi dyheadau disgyblion ar gyfer eu dyfodol eu hunain yn ddigon buan yn ystod eu siwrnai addysg. Erbyn i nifer o'r disgyblion hyn gyrraedd Blwyddyn 10 weithiau roedd yn rhy hwyr i godi eu huchelgeisiau;

Yn ystod y drafodaeth cyfeiriodd nifer o'r aelodau at y gwaith cadarnhaol yr oedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud o fewn eu wardiau neu wardiau cyfagos e.e. darparu bws mini yn y Rhyl, gweithio yn yr Hwb yn Ninbych.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion y Cyngor bod y posibilrwydd o dynnu cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn ôl o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cael ei fonitro'n agos. Byddai cofrestr risg yn cael ei agor ar gyfer rhestru ei effaith posibl a mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith. Roedd gwaith ar y gweill i weld os gall y Cyngor, os dyrennir cyllid penodol, wneud rhywfaint o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r rhaglen. Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau y byddai'n cyfarfod Ysgrifennydd y Cabinet yn fuan ym mis Chwefror. Pwysleisiodd bod y Cyngor angen ei gwneud yn glir i Ysgrifennydd y Cabinet y gall yr Awdurdod ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf os byddai'n derbyn yr un faint o arian i'r diben hwnnw. Roedd yn hanfodol nad oedd y £600 mil a ddyrannwyd i'r ardal fel rhan o'r rhaglen bresennol yn cael ei golli nac yn gostwng o dan unrhyw fentrau yn y dyfodol gan y byddai'n cael effaith andwyol ar gymunedau ac ar uchelgeisiau'r Cyngor mewn perthynas â datblygu'r

economi leol ac amddiffyn pobl ddiamddiffyn. Fodd bynnag, ni fyddai'r Cyngor yn gallu disodli'r cyllid a gollwyd o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gydag arian o fewn ei gyllideb, ac ni allai gyflogi staff y Grŵp Cydweithredol presennol ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau fyddai ganddo ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

Dywedodd cynrychiolwyr y Grŵp Cydweithredol wrth swyddogion y Cyngor y byddent yn fodlon gweithio gyda nhw i bwyso ar Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â'r pryderon oedd gan yr holl fudd-ddeiliaid o ran effaith ar y gymuned a'r economi leol wrth golli gwerth £600 mil o arian. Yn ychwanegol at golli'r cyllid a oedd yn cefnogi gwaith gydag unigolion diamddiffyn byddent yn colli lefelau ymddiriedaeth a pherthynas a ddatblygwyd dros gyfnod o amser gyda chymunedau ac unigolion anodd eu cyrraedd, byddai perthynas newydd yn cymryd amser i'w ffurfio o dan unrhyw drefniadau newydd. Cytunodd cynrychiolwyr y Grŵp Cydweithredol i weithio gyda swyddogion y Cyngor i nodi pa feysydd sy'n haeddu parhau ar gyfer y dyfodol a llunio cynlluniau wrth gefn mewn ymateb i gyhoeddiad terfynol Ysgrifennydd y Cabinet ar y Rhaglen. Roedd pawb yn cytuno i gydweithio er budd ac er lles trigolion Sir Ddinbych.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Grŵp Cydweithredol am fynychu:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod:*

*(i) i dderbyn yr adroddiad cynnydd ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych hyd yma; ac*

*(ii) argymell i'r Gweithgor Trechu Tlodi y dylai ofyn i swyddogion y Cyngor weithio gyda swyddogion y Grŵp Cydweithredol i amlygu i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant budd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych hyd yma, gwneud sylwadau iddo ar bwysigrwydd sicrhau o leiaf yr un faint o arian i'r ardal fel rhan o'r 'dull newydd', nodi meysydd sy'n haeddu parhau, a phwysleisio'r angen i gynnal y perthnasau cadarn oedd yn bodoli hyd yma i beidio colli ymddiriedaeth a'r momentwm a diogelu budd gorau'r trigolion lleol gyda'r bwriad o roi awdurdod iddynt ddatblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o dempled 'ffurflen cynnig Aelodau" wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys fel Atodiad 3, ac roedd tabl yn crynhoi datrysiadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori am gynnydd wrth eu gweithredu wedi'i atodi yn Atodiad 4.

Ystyriodd y Pwyllgor ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

<u>6 Ebrill 2017</u>
Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi'i ohirio o fis Ionawr 2017.

Ychwanegu Cyllidebau Cyfun i’r Rhaglen.

<u>22 Mehefin 2017</u>
Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod yn ddiweddar a chytunwyd yn y cyfarfod i ofyn i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau fonitro Cynllun Gweithredu Gofalwyr Sir Ddinbych 2017-19 ac felly dylai'r eitem gael ei hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ar gyfer 22 Mehefin 2017.

Byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 2 Mawrth 2017 a gofynnir i’r holl Aelodau Arweiniol fynychu.

Gofynnwyd am ddiweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau blaenorol ar Tawelfan. Ni ddisgwylir i’r adroddiadau terfynol fod ar gael tan ddechrau’r haf. Cytunwyd i barhau i fonitro’r cynnydd trwy ddiweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd BIPBC, a oedd ar gael yn gyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.05pm.**